Parch./Revd Gethin Rhys
Swyddog Polisi'r Cynulliad Cenedlaethol / National Assembly Policy Officer

Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AC
Prif Weinidog Cymru
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru

18 Ebrill 2019.

Annwyl Dr Drakeford,

Trefniadau deddfu datganoledig cyn ac ar ôl Brexit

Ysgrifennaf ar gais Gweithgor Cymru ac Ewrop Cytûn, a gyfarfu yn ddiweddar, ynghylch materion sy'n ein gofidio ynghylch y trefniadau deddfu sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Gweithgor yn cynnwys cynrychiolaeth (personol neu yn electronig) o bob enwad Cristnogol sy'n aelod o Cytûn a chan nifer o fudiadau Cristnogol eraill sy'n ymwneud â'r maes. Mae gan yr enwadau hyn ryw 150,000 o aelodau mewn oed ymhob cymuned yng Nghymru, ac maent yn ymwneud â llawer mwy o oedolion, plant a phobl ifainc ledled y wlad.

Rydym yn croesawu penderfyniad y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i ymgynghori'n gyhoeddus am rai o'r rheoliadau dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 mae hi wedi eu cyflwyno gerbron y Cynulliad yn ei maes gwaith hi. Er bod y cyfnod amser ymgynghori yn fyr dros ben, credwn fod hynny yn arfer da – ac yn rhywbeth na welwyd yn San Steffan.

Ar y llaw arall, rydym wedi darllen adroddiad diweddar Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad am "Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018" (Chwefror 2019), a hefyd wedi dilyn hynt y Bil Amaeth a'r Bil Pysgodfeydd a gyflwynwyd i Senedd San Steffan, sy'n dyrannu pwerau sylweddol i Weinidogion Cymru heb unrhyw derfyn amser penodedig. Yn wyneb hyn, ni allwn lai na chytuno â sylw'r Pwyllgor, "Er ein bod yn derbyn bod Llywodraeth Cymru o dan bwysau o ran amser ac adnoddau, nid ydym yn credu ei bod wedi dod o hyd i'r cydbwysedd priodol rhwng caniatáu i Weinidogion y DU weithredu ar ran Gweinidogion Cymru a gwneud ei deddfwriaeth ei hun." (para 19). Byddem yn nodi:

1. Bod y dull hwn o weithredu yn groes i'r dyheadau a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod trafod maith Deddf Ymadael 2018 ei bod yn awyddus iawn i sicrhau cadw hawliau deddfu'r Cynulliad ymhob maes datganoledig yn ystod y broses o drosglwyddo deddfwriaeth Ewropeaidd i'r DU. Yn benodol, pan gyfarfuom â'ch rhagflaenydd, Carwyn Jones AC, ym Mehefin 2017, roedd ef, fel ninnau, yn awyddus iawn i weld parchu canlyniad refferendwm 2011 a'r geiriau ar y papur pleidleisio y byddai pleidlais gadarnhaol yn golygu y gallai'r Cynulliad ddeddfu yn y meysydd datganoledig "heb orfod cael cytundeb Senedd y DU."
2. Mae'n anochel na fydd deddfwriaeth sy'n ymwneud â materion datganoledig yn cael llawer o graffu yn San Steffan, gan nad dyna briod waith Aelodau Seneddol yno, tra na all y Cynulliad graffu ar y fath ddeddfwriaeth. O ganlyniad, mae'r ddwy lywodraeth yn gallu cytuno â'i gilydd i ddeddfu heb unrhyw graffu gan y naill senedd na'r llall, sy'n groes i draddodiad seneddol y Deyrnas Unedig yn gyfan yn ogystal ag yn groes i'r setliad datganoli.
3. Rydym yn deall y pwysau amser ar y Llywodraeth, yn enwedig pan oedd ymadael ar 29 Mawrth 2019 heb gytundeb yn ymddangos yn debygol, ond fel y mae pethau wedi troi allan ni lwyddodd San Steffan i gwblhau'r Bil Amaeth na'r Bil Pysgodfeydd erbyn y dyddiad hwnnw, ac fe gredwn y gallai'r

Parch./Revd Gethin Rhys
Swyddog Polisi'r Cynulliad Cenedlaethol / National Assembly Policy Officer

atodlenni perthnasol i Gymru fod wedi cael eu cyflwyno ar ffurf Biliau Cymru, eu craffu ac efallai eu cymeradwyo yn y Cynulliad o fewn yr amser y maent wedi treulio yn San Steffan.

4. Mae deddfau ac is-ddeddfau San Steffan ar gael yn Saesneg yn unig, tra bod y Cynulliad yn deddfu'n ddwyieithog. Mae'r defnydd hwn o San Steffan i ddeddfu mewn meysydd datganoledig yn golygu bellach fod bylchau sylweddol yn y ddeddfwriaeth sydd ar gael yn Gymraeg.
5. At ei gilydd, fe ymddengys fod y camau hyn wedi golygu trosglwyddo grym sylweddol o'r ddeddfwrfa i'r Llywodraeth, a hynny ar adeg dyngedfennol yn ein hanes.

Rydym yn fwy pryderus fyth am y penderfyniad i argymell (a derbyn) Cydsyniad Deddfwriaethol y Cynulliad i ddwy o ddeddfau'r DU ynghylch ymadael â'r UE ar sail cyd-ddealltwriaeth rhyng-lywodraethol ynghylch gweithredu'r deddfau hyn ar ôl i ni ymadael â'r UE. Fe wnaed hynny trwy "ymrwymiadau anneddfwriaethol" yn Senedd y DU (MCD atodol i'r Bil Masnach, Chwef 2019, para 8) yn achos y Bil Masnach a thrwy femorandwm cyd-ddealltwriaeth yn achos y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol). Mae'r naill a'r llall yn golygu y bydd trefniadau ynghylch y materion pwysig a gwmpesir gan y ddau fil yma yn cael eu cyd-drafod gan y ddwy lywodraeth, ond nid o reidrwydd gan y ddwy senedd. Gellir disgwyl i weithdrefnau'r ddwy ddeddf yma, o'u gweithredu, fod mewn grym am flynyddoedd i ddod, gan amddifadu'r Cynulliad o hawl i graffu mewn da bryd ar benderfyniadau a fyddai fel arall wedi gofyn am is-ddeddfwriaeth yn y Cynulliad i'w gweithredu. Credwn fod hyn yn golygu y bydd yna drosglwyddiad grym o'r Cynulliad i Lywodraeth yn barhaus, nid dim ond dros gyfnod fel yn achos yr is-ddeddfwriaeth dan Ddeddf Ymadael 2018.

Credwn y dylid ystyried gofyn am drefniadau statudol, wedi eu cytuno gan y ddwy senedd, ar gyfer cyd-berthynas y ddwy lywodraeth, i gymryd lle trefniadau ar hap y JMC. Credwn y byddai argymhellion rhan 2 adroddiad Comisiwn Silk yn fan cychwyn da ar gyfer trefniadau o'r fath, er bod y newidiadau yn sgîl Deddf Cymru 2017 ac ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn golygu y gallai fod angen ailystyried ambell agwedd ohonynt erbyn hyn.

Byddem yn diolchgar pe gallech roi esboniad i ni o bolisi Llywodraeth Cymru yn hyn o beth, ac yn enwedig a ydych yn rhagweld y bydd y trefniadau ynghylch is-ddeddfwriaeth, deddfwriaeth sylfaenol, memoranda cyd-ddealltwriaeth neu ymrwymiadau anneddfwriaethol yn gosod cynsail ar gyfer gweithredu mewn meysydd datganoledig eraill yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,



Gethin Rhys (Parch.)
ar ran Gweithgor Cymru ac Ewrop Cytûn

Cc: Mick Antoniw AC, Cadeirydd, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
David Melding AC — Elin Jones AC (y Llywydd)
Jeremy Miles AC (Cwnsler Cyffredinol Cymru a Gweinidog Brexit)
David T C Davies AS (Cadeirydd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin)
Yr Arglwyddes Taylor o Bolton (Cadeirydd, Pwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ'r Arglwyddi)
Yr Arglwydd Llysfaen
Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit — Cynghrair Cymdeithas Sifil (y DU) ar Brexit